

Cofnodion Cyfarfod Statudol Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, a thrwy gyfrwng Microsoft Teams ar ddydd Mercher, Mai 18^{fed} 2022 am 6.30 yh.

Presennol

Cynghorwyr	P. H. Roberts	Mrs A. Evans	I. Rh Llewelyn
	Mrs S. E Thomas	Mrs C. Thomas	R. A. Davies
	S. Roberts	A. W. Jones	D. Hopkins
	D. Nicholas	D. Jones	D. Thomas
	J. W. Tandy	Mrs H. S. Bjork	G J. Davies
	R. W. Barnes	E. W. Nicholas	

Ymddiheuriadau

Cynghorydd	Mrs K. D. L. Davies
------------	---------------------

1.

Penodi Cadeirydd

Estynnodd y Cynghorydd I. Rh. Llewelyn (Cadeirydd y Cyngor a oedd yn ymadael) groeso i'r holl Aelodau, hen a newydd, i'r cyfarfod gan ddweud ei fod wedi mwynhau ei gyfnod fel Cadeirydd y Cyngor a'i fod yn dymuno'n dda i'r Cadeirydd newydd wrth iddo ymgymryd â'i swydd am y flwyddyn sydd i ddod. Roedd y Cadeirydd wedi cyfeirio at y gwaith ardderchog a wnaethpwyd gan y Cyngor yn ystod ei flwyddyn yn y swydd a diolchodd i'w gyd-Gynghorwyr am eu cefnogaeth.

Roedd y Clerc wedi cadarnhau bod yr holl Gynghorwyr wedi llofnodi eu Datganiadau Derbyn Swydd.

Penderfynwyd penodi'r Cynghorydd P. H. Roberts yn Gadeirydd newydd. Yna fe dyngodd ei llw Derbyn ei Swydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd I. Rh. Llewelyn am ei waith dros y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd yn gobeithio y gallai barhau i wneud gwaith ei ragflaenydd.

2.

Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiad.

3.

Penodi Is-Gadeirydd

Penderfynwyd penodi'r Cynghorydd Mrs C. Thomas yn Is-Gadeirydd y Cyngor. Yna fe dyngodd ei llw Derbyn ei Swydd.

5.

Penodi'r Pwyllgorau

Cadarnhawyd bod y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn aelodau o holl bwyllgorau'r Cyngor, fel y **penderfynwyd** cyn hynny.

Penderfynwyd ethol y Cynghorwyr canlynol i wasanaethu ar y Pwyllgorau canlynol:

Cadeirydd

Pwyllgor Cyllid

Llandybie: R. A. Davies a D. Hopkins

Saron: Mrs C Thomas a Mrs K. D. L. Davies

Penygroes: D. Thomas a J. W. Tandy

Heolddu: I. Rh. Llewelyn

Pwyllgor Cynllunio

Llandybie: E. W. Nicholas a S. Roberts

Saron: Mrs K. D. L. Davies a Mrs A. J. Evans

Penygroes: R. W. Barnes

Heolddu: Gan fod y Cynghorydd I. Rh. Llewelyn yn gyflogedig gan Adran Gynllunio'r Cyngor Sir, **penderfynwyd** cyfethol y Cynghorydd Mrs H. S. Bjork i'r pwyllgor.

Pwyllgor Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Llandybie: D. Nicholas ac E. W. Nicholas

Saron: Mrs C Thomas a Mrs A. J. Evans

Penygroes: J. W. Tandy

Heolddu: I. Rh. Llewelyn

Pwyllgor Datblygu Cymunedol

Llandybie: E. W. Nicholas a D. Hopkins

Saron: Mrs C. Thomas a G. J. Davies

Penygroes: Mrs S. E. Thomas a R.W. Barnes

Heolddu: I. Rh. Llewelyn

Pwyllgor Polisi

Llandybie: D. Hopkins

Saron: Mrs A. J. Evans

Penygroes: P. H. Roberts

Heolddu: I. Rh. Llewelyn

Pwyllgor codi proffil y Cyngor

Llandybie: D. Nicholas ac A. W. Jones

Saron: Mrs C. Thomas a D. Jones

Penygroes: Mrs S. E. Thomas a J. W. Tandy

Heolddu: I. Rh. Llewelyn

Pwyllgor Cyflogaeth

Llandybie: D. Nicholas a R. A. Davies
Saron: D. Jones a Mrs A. J. Evans
Penygroes: D. Thomas a Mrs S. E. Thomas
Heolddu: I. Rh. Llewelyn

Parciau ac Ardaloedd Chwarae

Llandybie: E. W. Nicholas a R.A Davies
Saron: D. Jones a Mrs A. Evans
Penygroes: R. W. Barnes a Mrs S. E. Thomas
Heolddu: I. Rh. Llewelyn

Penderfynwyd y dylai'r pwyllgor polisi adolygu Cylch Gorchwyl pob pwyllgor, a bod ei argymhellion yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

6.

Cynrychiolwyr ar Gyrff Allanol

Penderfynwyd bod yr Aelodau canlynol yn cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

Un Llais Cymru Sir Gaerfyrddin: P. H Roberts a Mrs C. Thomas

Un Llais Cymru, Pwyllgor y Cynghorau Mwy o Faint: I. Rh. Llewelyn

Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Canolbarth Cymru: D. Hopkins

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: I. Rh. Llewelyn

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Saron: Mrs C. Thomas

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Penygroes: P. H. Roberts

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Blaenau: P. H. Roberts

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llandybie: D. W. Hopkins

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Parcyrhun: Dim enwebiad

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gorslas: cymeradwyo J. W. Tandy i'r corff llywodraethu.

7.

Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a'r Cyfarfod Statudol ar gyfer 2022/23

Penderfynodd yr Aelodau y byddai'r cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal ar nos Fercher olaf pob mis heblaw am Awst a Rhagfyr pan na chynhelir cyfarfodydd. Hefyd **penderfynwyd** cynnal cyfarfodydd ychwanegol yn Ionawr a Medi ar nos Fercher gyntaf y mis, ond bod y Cadeirydd a'r Clerc yn defnyddio'u disgrisiwn i benderfynu os oedd gwir angen galw cyfarfod.

Cynhelir y cyfarfod Statudol yn union cyn y Cyfarfod Cyffredin ym mis Mai 2023.

8.

Llofnodwyr

Penderfynwyd bod y Cynghorwyr D. Nicholas, E. W. Nicholas a R. A. Davies, ynghyd â'r Clerc, yn parhau i fod yn llofnodwyr ar gyfer cyfrifon banc a chynilion y Cyngor Cymuned. Cadarnhawyd y byddai angen llofnod y Clerc, ynghyd â llofnod unrhyw ddau o'r Cynghorwyr a enwyd uchod, ar gyfer pob gweithrediad

9.

LWFANS DEWISOL

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi rhoi'r opsiwn i bob Cyngor ddewis p'un ai y byddant yn gweithredu'r cynllun hwn neu beidio. Er mwyn gwneud taliad am fusnes swyddogol neu ddyletswydd a gymeradwywyd bydd angen cyflwyno cynllun ffurfiol, a sicrhau ei fod ar gael yn gyhoeddus. Yr uchafswm gorfodol a delir am bob ddigwyddiad cymwys yw £30.

Penderfynwyd bod y Pwyllgor Polisi yn llunio cynllun newydd i fabwysiadau, yn ffurfiol, y lwfans fel bod modd i'r Cyngor Llawn ei ystyried.

10.

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.10 yh.